


# RYDYM YN RECRIWTIO

Family Justice Young People's Board

fjypb

**DYDDIAD CAU**

**20fed Mawrth 2020**

"*Helo!* Ni yw'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol Pobl Ifanc (FJYPB), grŵp o blant a phobl ifanc rhwng 7 a 24 oed sy'n dod o gefndiroedd a phrofiadau amrywiol a gwahanol, sydd a llais uniongyrchol ar sut mae gwasanaethau ar gyfer bob plentyn a pherson ifanc yn cael eu rhedeg yn y llysoedd teulu.

*Rydym yn gwneud pethau fel: arolygu swyddfeydd Cafcass Cymru, canolfannau cyswllt a llysoedd; rhedeg hyfforddiant ar gyfer gweithwyr proffesiynol; cymryd rhan mewn gweithdai a chynadleddau; cyfrannu at ddatblygu polisïau; a chynhyrchu adnoddau defnyddiol ar gyfer pobl sy'n gweithio gyda plant a phobl ifanc.*

*Rydym yn gweithio gyda barnwyr, cyfreithwyr, gweithwyr cymdeithasol, cynghorwyr llys teulu, gwleidyddion a chyfryngwyr i enwi ond ychydig.*"





**Mae sawl rheswm pam y gallwch fod â phrofiad, ond dyma rai:**

- Mae eich rhieni wedi gwahanu
- Rydych yn cael cyswllt gyda rhiant neu aelod arall o'ch teulu nag ydych yn byw efo
- Rydych o dan Orchymyn Gofal
- Ydych wedi mynychu Canolfan Cyswllt?
- Ydych wedi cwrdd a rhywun o Cafcass Cymru (Gwarcheidwad / Cynghorydd Llys Teulu)?
- Ydych efo profiad o gyfryngu teuluol?
- Ydych wedi cael neu dal efo Gweithiwr Cymdeithasol?
- Ydych yn byw yn ngofal aelod arall o'ch teulu neu gofalwr maeth?



Cewch wybod mwy ar ein gwefan:

www.cafcass/fjypb

Neu cysylltwch â ni am becyn cais:

fjypb@cafcass.gov.uk

*"Mae bod yn rhan o'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol Pobl Ifanc (FYJPB) yn gyfle anhygoel a gwych. Rwy'n cymryd rhan mewn llwyth o brosiectau diddorol sy'n cynrychioli llais y plentyn ac yn sicrhau ei fod yn cael ei glywed.*

*Mae'n rôl wobrwyol iawn. Rydych chi'n cael dysgu sgiliau newydd, gwneud ffrindiau newydd a gwneud gwahaniaeth go iawn i'r system cyfiawnder teuluol. Cewch eich talu hefyd am y gwaith yr ydych yn ei wneud ac mae'n gyfle gwych a hwyliog"*

*Aelod o'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol Pobl Ifanc*

